

Aberystwyth University

Breuddwyd Iorwerth Deircaill

Huws, Bleddyn

Published in:
Dwned

Publication date:
2020

Citation for published version (APA):

Huws, B. (2020). Breuddwyd Iorwerth Deircaill. *Dwned*, 25(2019), 57-70. Erthygl 3.

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Breuddwyd Iorwerth Deircaill

Mewn cywydd a gyfansoddwyd ar y cyd gan Wiliam Cynwal a Huw Llŷn fel ateb i'r cywydd cellweirus a ganwyd iddynt gan Wiliam Llŷn, Ieuan Tew, Siôn Phylip a Hywel Ceiriog i ofyn am gorn yfed a phinner—sef cas i ddal pin ysgrifennu—dros Robart Prys o Eglwyseg ger Llangollen, cyfeirir at nodweddion a phriodoleddau pob un o'r pedwar bardd yn eu tro. Pan ddeuir at Siôn Phylip, y bardd o Fochras yn Ardudwy, sonnir am ei hoffter o adrodd breuddwyd Iorwerth, a hynny dros ginio a swper:

Yn ein byw ni chawn yn bêr
– Oes hap? – giniaw na swper
Na ddoeto, dan sonio'n serth,
Fardd diriaid, freuddwyd Ierwerth [...]¹

Awgrym petrus Geraint Percy Jones oedd mai cyfeiriad at ryw araith bros oedd 'breuddwyd Ierwerth'.² Er nad oes araith o'r enw hwnnw yn y casgliad o areithiau pros a olygwyd gan D. Gwenallt Jones, y mae dwy araith a elwir yn freuddwydion wedi eu cynnwys ynddo, sef 'Breuddwyd Gruffydd ab Adda ap Dafydd' a 'Breuddwyd Llywelyn Goch ap Meurig Hen', dau freuddwyd a dadogir ar ddau fardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.³ Y tebyg yw i'r areithiau hyn gael eu llunio yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'u priodoli i feirdd adnabyddus cynharach.

Gellir dweud erbyn hyn ei bod yn dra thebygol mai'r breuddwyd y cyfeirir ato yng nghywydd Wiliam Cynwal a Huw Llŷn yw'r un y ceir copi anghyflawn ohono yn llawysgrif Peniarth 254D, a chopi cyflawn yn llawysgrif LIGC 13215E, sef 'Breuddwyd Iorwerth ab Adda ap Dafydd yr hwn a elwid Iorwerth Deircaill'. Mae'n un o ddau freuddwyd byr a gofnodwyd yn y llawysgrif honno. Fe'i diweddir â phenillion maswedus ar ffurf ymddiddan rhwng y prif gymeriad, Iorwerth, a'i gariadferch. Gan

¹ Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), cyfrol 2, 173.53–6.

² G. P. Jones, 'Wiliam Cynwal', *LIC*, 11 (1971), 181. Gwelir mai gofynnod yn unig a ddilyn y cyfeiriad at 'freuddwyd Ierwerth' yn nodiadau Roy Stephens ar y cywydd, gw. Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn', cyfrol 2, t. 754.

³ D. Gwenallt Jones gol., *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd, 1934), tt. 18–23, 65–6.

fod cywydd Wiliam Cynwal a Huw Llŷn yn cyfeirio at Siôn Phylip yn adrodd y breuddwyd yn ‘serth’, sef yn anweddus ac yn aflednais, bras, cwrs neu’n anllad, pair hynny inni dybio mai’r araith benodol hon a oedd mewn golwg. Digwydd yr enw haniaethol ‘serthedd’ am y math o afledneisrwydd sy’n deillio o grybwyll rhannau penodol o’r corff, neu weithredoedd rhywiol, neu yn wir weithredoedd corfforol fel torri gwynt (rhechu) ac ysgarthu (piso neu gachu). Talai inni gofio am feirniadaeth Gruffudd Robert ar feirdd ei gyfnod yn ei Ramadeg yn 1567, pan ddymunai eu gweld yn ymroi i ganu cerddi mwy duwiol a gweddus eu natur yn hytrach na’r ‘[...] ce[l]wydd, gweiniaeth, a’r serthedd y mae’r prydyddion, diddysg, dilythr, a diyspryd da, yn i ganu fynychaf [...]’.⁴ Beirniadaeth ar anweddustra a diffyg moesoldeb y beirdd oedd honno, a diau mai’r math o ddeunydd a geir yn y penillion ar ddiwedd y breuddwyd hwn a olygai.⁵

Llawysgrif gyfansawdd o’r cyfnod rhwng diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a diwedd yr ail ganrif ar bymtheg yw LIGC 13215E, y tybir ei bod unwaith yn rhan o lawysgrif a berthynai i Edward Lhuyd.⁶ Rhwng tudalennau 81 ac 88 ceir darnau o ryddiaith y gallem yn hawdd eu galw’n areithiau, ambell un yn ddigon hysbys ac ambell un arall heb fod mor hysbys â hynny. Ar dudalen 85 ceir rhaglith fer sy’n esbonio cefndir cyfansoddi’r ddau ddarn sy’n ei dilyn:

⁴ G. J. Williams gol., *Gramadeg Cymraeg gan Gruffydd Robert yn ôl yr argraffiad y dechreuwyd ei gyhoeddi ym Milan yn 1567* (Caerdydd, 1939), t. [208].

⁵ Cymharer geiriau beirniadol Morris Cyffin yn ei ragymadrodd i *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (1595) am y math o gerddi a geid gan y beirdd: ‘[...] naill ai cerdd faswedd, ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer heb na dysc, na dawn, na deunydd ynddi,’ gw. Garfield H. Hughes gol., *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd, 1951), t. 92. Mewn nodyn ar ymyl y ddalen yn *Kynniver Llith a Bann* (1551), defnyddir ‘serth’ gan William Salesbury fel un o gyfystyron ‘gair brwnt’, a geir yng nghorff y testun, gw. John Fisher ed., *Kynniver Llith a Bann* (Cardiff, 1931), t. [129]. Galwyd cywydd Dafydd ap Gwilym i’r ‘Gal’ yn ‘Cywydh serth brwnt’ gan Thomas Wiliems o Drefriw, gw. David Johnston, ‘Cywydd y Gal by Dafydd ap Gwilym, *CMCS*, 9 (1985), 72.

⁶ Gw. *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, iv (1971), tt. 506–8; Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800* (i ymddangos).

Tri Brodyr aethant i glera i blâs Esgob Bangor ar nôs Nadolig ag ni chowsant hwy gimmin croesso a ffrydyddion eraill ar nosson hwy aethont yw lletty ag a drigassont yn i gwlae hyd oni ddarfu kinio dranoeth ag yno i doethont hwy ag a eisteddassant gida /r/ clerwyr eraill ag a gan= =odd pob prydydd i gowydd ond nhwy i yllt[r]iodd: a rhyw un a fynnodd yddyn hwythe am i kerdd, a doedassant hwythe dei breuddwyd a naethent hwy /r/ nos or blaen am fod yn i ysglyssso nhwy rhagor prydyddion eraill.

Y darn cyntaf sy'n dilyn y rhaglith yw fersiwn cryno o araith hysbys a briodolir i Ieuan Brydydd Hir, sef 'Breuddwyd Ivan ab Adda ab Davydd yr a elwyd Ivan brydydd hir'.⁷ Mae'n bur annhebygol mai ef oedd y gwir awdur a diau mai enghraifft sydd yma o briodoli araith i fardd adnabyddus, er nad oes tystiolaeth mai Ifan (Ieuan) ab Adda ap Dafydd oedd enw'r Ieuan Brydydd Hir o Ardudwy.⁸ Y duedd yn yr areithiau pros, fel y dywedwyd eisoes, oedd tadogi araith ar fardd hanesyddol, megis Llywelyn Goch Amheurig Hen neu Ruffudd ab Adda, er mwyn rhoi nod awdurdod arni. Yr hyn a ddywedir yn y rhaglith yw fod tri bardd a aethai i glera i blas yr Esgob ym Mangor wedi llunio'r ddau freuddwyd ac wedi eu hadrodd am iddynt deimlo na chawsant gystal croeso â beirdd eraill. Yr argraff a geir yw fod cynnwys maswedus a sgatolegol yr ail freuddwyd, sef 'Breuddwyd Ierwerth ab Adda ab Dd yr hwnn a elwid Ierwerth deirkeill', yn ymateb i'r amarch a'r diffyg cwртеisi a ddangoswyd tuag at y tri bardd yn llys yr Esgob. Pair y rhaglith inni dybio mai dialedd oherwydd esgeulustod ac anghwrteisi oedd adrodd hanesyn ffaidd ac anllad yng nghartref yr Esgob.

Yr hyn na wyddom yw pa mor ddilys oedd yr hanesyn y sonnir amdano yn y rhaglith. Ai stori ddychmygol oedd hon er mwyn esbonio cyd-destun y breuddwyd? Gan nad yw awdur na dyddiad y breuddwyd, chwaethach y rhaglith, yn wybyddus, amhosibl yw gwybod. Atgoffir ni gan y stori ragarweiniol hon am y rhaglith i awdl Dafydd Bach ap Madog Wladaidd, 'Sypyn Cyfeiliog', yn llaw John Jones, Gellilyfdy, lle sonnir am y bardd yn aros yn llys Dafydd ap Cadwaladr o Fachelldref ar nos Nadolig ac

⁷ Gw. 'Araith Ieuan Brydydd Hir' yn Jones gol., *Yr Areithiau Pros*, tt. 30–2.

⁸ Ar Ieuan Brydydd Hir o Ardudwy (*fl.* c.1450–85), gw. *GIBH*, tt. 1–20, ac Atodiad ii. A ystyrid bod y cymeriad Ifan ab Adda ap Dafydd yn y breuddwyd cyntaf a gofnodwyd yn y llsgr. yn frawd tybiedig i'r cymeriad Iorwerth ab Adda ap Dafydd yn yr ail?

yn cyfansoddi awdl mewn un noson.⁹ Barn Iestyn Daniel oedd y gallai'r hanesyn hwnnw fod yn seiliedig ar amgylchiadau hanesyddol.¹⁰ Yn achos y breuddwyd hwn, fodd bynnag, sy'n rhyddiaith ffuglennol, dichon mai ffrwyth dychymyg pur yw'r rhaglith hefyd.

Yr oedd rhyw gymeriad o'r enw Iorwerth Deircaill yn wybyddus i'r beirdd cyn yr unfed ganrif ar bymtheg, oherwydd yn ei gywydd i ddychanu ceilliau Guto'r Glyn, cyfeiriodd Dafydd ab Edmwnd at y ceilliau fel hyn:

Torcyn hoel Iorwerth Teircaill
Tancwd pŵl fal tincwd pail.¹¹

Er y gallasai'r breuddwyd a gysylltir â'i enw, felly, fod yn hŷn na'r unfed ganrif ar bymtheg, yr hyn sydd fwyaf tebygol yw fod cymeriad chwedlonol cynharach o'r enw hwnnw wedi dod yn gymeriad mewn araith bros a luniasid erbyn 1587/8, sef dyddiad marw Wiliam Cynwal, cyd-awdur y cywydd sy'n cyfeirio at y 'Breuddwyd'. Rhaid cydnabod, wrth gwrs, mai'r enw 'Iorwerth' heb yr epithet a gyplysir â'r breuddwyd yng nghywydd Cynwal a Huw Llŷn, ond fel yr awgrymwyd uchod, mae cynnwys 'serth' y 'Breuddwyd' yn awgrymu mai'r cymeriad Iorwerth Deircaill a olygid.

Yn dilyn y ddau freuddwyd yn llawysgrif LIGC 13215E ceir llythyr i ofyn am balffon a briodolir i Siôn Phylip, ac yn yr achos hwnnw gellir dweud yn bur hyderus nad oes lle i amau'r priodoliad. Dadleuir mewn man arall mai ef a'i lluniodd i ofyn am raw gan Forys Owen o Ystumcegid yn nhrefgordd Dolbenmaen yng nghwmwd Eifionydd, a bod y llythyr yn enghraifft o ryddiaith

⁹ *GDBM*, cerdd 1 a'r nodyn ar tt. 39–40.

¹⁰ R. Iestyn Daniel, 'Rhaglith i gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: dogfen hanesyddol?', *Dwned*, 1 (1995), 55–66.

¹¹ *GG.net*, 68a.29–30; gw. hefyd *ibid.*, 68a.29n: 'Ni welwyd cyfeiriadau eraill at y cymeriad (?chwedlonol) hwn.' Ni chanfuwyd yr enw 'Iorwerth Deircaill' ym marddoniaeth olygedig a chyhoeddedig y bedwaredd ganrif ar deg, gw. Ann Parry Owen, 'Mynegai i enwau priod yng ngwaith beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg', *LIC*, 31 (2008), 35–89. Teg nodi bod yr enw Iorwerth ab Adda ap Dafydd yn digwydd yn yr achau, ond amhosibl heb dystiolaeth fyddai uniaethu hwnnw â'r cymeriad Iorwerth Deircaill, gw. *WG2*, 'Gollwyn' 4(A), sef teulu Bwlch Coed Dyffryn, hen enw plas Tan-y-bwlch, Ffestiniog.

fwriadus rethregol.¹² Gan fod copïydd y rhan o'r llawysgrif lle digwydd 'Breuddwyd Iorwerth Deircaill' wedi ei gynnwys ymhlith darnau o ryddiaith y gallwn eu galw'n 'areithiau', y mae cyfiawnhad dros ei ychwanegu at y casgliad o areithiau pros cydnabyddedig eraill sydd ar glawr. Tybed nad oedd y cyfeiriad at hoffter honedig Siôn Phylip o adrodd y 'Breuddwyd' yn wybyddus i'r copïydd ac mai dyna pam y rhagflaenir y llythyr gofyn, a briodolir iddo, gan y breuddwyd?¹³

Y farn hyd at yn lled ddiweddar oedd fod a wnelo'r areithiau ag addysg y beirdd. Datganodd Gwenallt—efallai dan ddylanwad W. J. Gruffydd, a alwodd yr areithiau pros yn 'ymarferiadau prentisaidd'¹⁴—mai ymarferiadau gan gywion beirdd oeddynt, sef disgyblion barddol yn dechrau dysgu eu crefft, ac adleisiwyd y farn honno gan Ceri Lewis pan alwodd y cyfansoddiadau rhethregol hynny yn 'examples of literary exercises by young bardic aspirants'.¹⁵ Ond fel y'n hatgoffir ni gan Ddafydd Johnston, nid oes tystiolaeth i brofi mai ffrwyth ymarferion rhethregol cywion beirdd oedd yr areithiau pros o gwbl. Tuedda ef, yn hytrach, i'w hystyried yn 'gyfansoddiadau llenyddol bwriadus' sy'n adleisio ac yn parodio arddull rethregol a thechnegau naratif chwedlau Cymraeg Canol megis 'Culhwch ac Olwen' a 'Breuddwyd Rhonabwy'.¹⁶ Diau fod galw araith yn 'freuddwyd' yn dwyn i gof y chwedl am Ronabwy yn benodol, ac yn peri i gynulleidfa mewn ffordd ymwybodol ac uniongyrchol glywed adleisiau ohoni, fel yn achos 'Breuddwyd Iorwerth Deircaill'.

Er na ddylid diystyru'n llwyr y posibilrwydd y gall fod ambell araith yn gyfansoddiad enghreifftiol gan athro barddol fel y gallai cywion beirdd ei adrodd ar lafar a'i efelychu er mwyn meithrin huodledd rhethregol, y mae'n debygol i rai ohonynt gael

¹² Bleddyn Owen Huws, 'Llythyr gofyn gan Siôn Phylip' (i ymddangos).

¹³ Mae'n werth cofio hefyd fod perthynas waed rhwng Siôn Phylip a Wiliam Cynwal. Yr oeddynt yn geifnaint.

¹⁴ W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru: Rhyddiaith o 1540 hyd 1660* (Wrecsam, 1926), t. 9. Gw. hefyd ei sylwadau ar yr areithiau, *idem*, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), tt. 64–7.

¹⁵ Jones gol., *Yr Areithiau Pros*, t. xix; Ceri W. Lewis, 'Einion Offeiriad and the Bardic Grammar' yn *A Guide to Welsh Literature, Volume 2*, ed. A. O. H. Jarman and Gwilym Rees Hughes (Llandybïe, 1979), t. 61.

¹⁶ *LIU*, tt. 428–30.

eu cyfansoddi yn unig er mwyn diddanu cynulleidfa mewn cyd-destun penodol. Mae'r rhaglith i 'Freuddwyd Iorwerth Deircaill' yn cyfeirio at adrodd yr araith adeg gŵyl y Nadolig, ac awgryma hynny fod y cyd-destun yn debyg i ddeunydd barddol o'r un natur sy'n gyfuniad o gerddi maswedus a chellweirus pan oedd nifer o feirdd wedi ymgynnull yng nghartref noddwr penodol. Gellir mentro ymhellach a dweud mai breuddwyd i'w adrodd ar lafar mewn gwledd oedd y breuddwyd hwn, fel ei fod yn gyfrwng adloniant a difyrwch bras. Gan fod dau fersiwn o'r breuddwyd ar gael, a'i bod yn ymddangos fod peth amrywio yn y cynnwys, gellir priodoli hynny i'w natur lafar, rhywbeth a gadarnheir gan y cyfeiriad yng nghywydd Wiliam Cynwal a Huw Llŷn at hoffter honedig Siôn Phylip o'i adrodd ('na ddoeto').

Awgryma'r deunydd 'serth' sydd ynddo ei fod yn perthyn i'r math o gerddi a gysylltwn â'r arfer o destunio beirdd yn nefod y cyff clêr, lle ceid yn aml ganu ar destun maswedus, er enghraifft pan honnwyd bod ceilliau Tudur Penllyn wedi'u rheibio gan flaid.¹⁷ Digwyddai hynny fel rhan o ddiddanwch defodol pan ymgynullai beirdd ar aelwydydd eu noddwyr ar achlysuron penodol megis gwledd briodas neu adeg y Nadolig a'r Calan, lle gellid canu cywyddau ymryson neu gywyddau ac englynion dychanol, maswedus ac enllibus fel rhan o ddifyrwch y cynulliad, sef yr hyn a alwodd Jerry Hunter yn 'gellwair defodol'.¹⁸ Gellid tynnu coes a gwatwar cyd-feirdd mewn awyrgylch chwareus a phryfoclyd ar achlysuron o'r fath, ynghyd â datgan pethau bras yn ddigon ffwrdd-â-hi heb boeni'n ormodol am beri tramgwydd.

Mae'n ymddangos y gallai rhywbeth a fyddai ym marn rhai yn anwedus ac anllad fod yn ddeunydd digon derbyniol gan eraill mewn cyd-destun penodol, lle byddai hyd a lled yr hyn a ddywedid yn cyd-fynd â disgwyliadau'r sawl a oedd yn bresennol yn y gynulleidfa.¹⁹ Mewn gair, byddai'n ddealledig beth oedd y con-

¹⁷ *GG.net*, cerddi 46–46b.

¹⁸ Jerry Hunter, 'Cyd-destunoli ymrysonau'r Cywyddwyr: golwg ar yr 'ysbaddiad barddol'', *GyC*, t. 95.

¹⁹ Anodd yw i ni yn yr unfed ganrif ar hugain ddarllen cerddi o ddiwedd yr Oesoedd Canol ac o'r Cyfnod Modern cynnar yn ôl ein llinyn mesur ni a gorfodi ar eu hawduron a'u cynulleidfa safonau moesol gwahanol i'r hyn a arddelent hwy. Ar hyn, gw. Dafydd Johnston, 'Erotica and satire in medieval Welsh poetry' yn *Obscenity [:] Social Control & Artistic Creation in the European*

fensiwn mewn cyd-destun o'r fath, a byddai'n dderbyniol am nad oedd dim a ddywedid yn treisio chwaeth nac yn merwino clust. Mae'n amhosibl inni wybod a oedd deunydd o'r math hwn yn gyfyngedig i gynulleidfaoedd gwrywaidd yn unig, ynteu a adroddid ef yng nghlyw merched yn ogystal. Gwyddom am enghreifftiau lle datgenid rhai cerddi o natur gellweirus yng ngŵydd beirdd benywaidd.²⁰ Un peth fyddai adrodd deunydd cellweirus a chwareus ei natur yng nghlyw merched, ond peth arall fyddai adrodd deunydd mor anllad ac amrwd â'r hyn a geir ym mhenillion 'Breuddwyd Iorwerth Deircaill'. Nid oes modd dweud a fyddai merched yng Nghymru'n gwerthfawrogi'r math hwn o ddeunydd, dim mwy nag y medrir dweud, er enghraifft, a oedd y sôn am weithredoedd rhywiol yn y *fabliaux* at ddant merched yn Ffrainc.²¹

Y math o ymddiddan erotig a ddygir i gof gan y penillion ym 'Mreuddwyd Iorwerth Deircaill' yw hwnnw ar ffurf englynion rhwng Dafydd Llwyd o Fathafarn a Gwerful Mechain, lle gofyn y bardd gwrywaidd i'r bardd benywaidd a oedd ganddi lestr a gwain ddigon hir i dderbyn ei gal.²² Defnyddir 'tafod cloch' yno fel cymhariaeth â phidyn Dafydd Llwyd, a chyfeirir at ei geilliau'n

Middle Ages, ed. Jan M. Ziolkowski (Leiden, 1998), tt. 60–1: 'The terms obscene and obscenity are more problematic, since they imply a value judgment and therefore make assumptions about the moral standards of medieval Welsh society. It cannot be taken for granted that what the modern reader regards as obscene would be so for the medieval audience.'

²⁰ *GGM*, t. 16; gw. hefyd sylwadau Eurig Salisbury ar gywydd dychan gan Syr Siôn Leiaf i dri bardd, sef Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain, 'Rhisiart Cyffin ab Ieuan Llwyd, Deon Bangor', *Dwned*, 17 (2011), 89–97, ynghyd â sylwadau Marged Haycock ar Wladus Hael, 'Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus 'Hael' ac eraill', *GyC*, tt. 133–7.

²¹ Gw. Lisa Parfetti, 'Lewd and the ludic: female pleasures in the *fabliaux*' yn *Comic Provocations: Exposing the Corpus of the Old French Fabliaux*, ed. Holly A. Croker (New York & Basingstoke, 2006), t. 22: 'What about women? Would they have laughed at *fabliaux* describing sexual acts? We know little, of course, about the audiences of *fabliaux* and in what circumstances they were told and heard, and so consideration of women as readers of the genre must remain speculative.' Yr oedd pethau'n wahanol yng Nghymru erbyn y ddeunawfed ganrif, oherwydd yn yr anterliwtiau cyferchid y merched yn y gynulleidfa yn ddiethriad gan gymeriad y Ffŵl pan chwifiai ei arwydd ffalig. Gwyddom fod serthedd yr anterliwtiau'n cael ei fwynhau gan ddynion a merched. (Diolchaf i Dr Cynfael Lake am y sylw olaf hwn.)

²² *GGM*, cerdd 12.

drosiadol fel ‘eirin’.²³ Mae Gwerful wrth ei ateb yn ei chynnig ei hun iddo. Yr hyn na wyddom i sicrwydd yw ai Gwerful ei hun oedd awdur yr englynion ynteu Dafydd Llwyd.²⁴

A dychwelyd at yr ymddiddan yn y ‘Breuddwyd’, teg gofyn ai fel ateb i gwestiwn Iorwerth, ‘pa beth a nae fab a thydi [?]’ (ll. 24) y dywed y ferch ‘blaen dy dafod yn fy nhin’ (ll. 27)? Golygai hynny naill ai y tafod yn llythrennol neu’r tafod yn ffigurol, sef blaen pidyn Iorwerth. Wrth ateb, dywed Iorwerth: ‘yn dy din blaen fynghwpa’ (ll. 29). Nid annichon mai ffrwyth camgopïo’r gair ‘clwpa’—neu’r amrywiad arno, sef ‘cnwpa’—sy’n golygu ‘pastwn’ neu gnaf ar ben ffon, yw ‘cwpa’ yn y fan hon, sef trosiad addas am bidyn. Cyhudda Iorwerth y ferch o’i waradwyddo. Ai oherwydd iddi ei annog i anelu am ei thin?

Dyfais gyfarwydd yn y canu maswedd yw ymddiddan rhwng mab a merch.²⁵ Mewn ambell achos, mae’r mab yn annog y ferch i gael cyfathrach rywiol yn groes i’w hewylllys.²⁶ Yn y fan hon, fe ymddengys fod y gariadferch yr un mor awyddus ag Iorwerth ei hun. Mae hi’n ei annog drwy ofyn y cwestiwn ‘a fedrid di fod gan ddyn [?]’ (ll. 45) (‘A fedri di gael cyfathrach rywiol â merch?’). Fe all mai’r hyn a gymhellodd y cwestiwn oedd ei hamheuaeth ynghylch gwir allu Iorwerth am iddo anelu am ei thin yn hytrach nag am ei haelod dirgel (er y gall tin olygu’r ddau yn ffigurol, wrth gwrs).²⁷ Pe bai corn canu yn ei thin, meddai hi, ni fyddai’n anos iddi ysgarthu, ac ni fyddai wahaniaeth ganddi am hynny (llau. 31–3). Awgrymu a wneir ei bod yn ferch chwantus ac anniwall. Atgoffa hi Iorwerth fod ganddi ‘gont a chrib keiliog’ (ll.

²³ Digwydd ‘eirin’ yn ffigurol am geilliau yn un o benillion y ‘Breuddwyd’ yn ogystal: ‘mae gen ine gwd ag eirin’ (ll. 37).

²⁴ *GGM*, tt. 165–6.

²⁵ *CMOC*, cerddi 12–16. Am drafodaeth ar y canu maswedd, gw. D. R. Johnston, ‘The erotic poetry of the Cywyddwyr’, *CMCS*, 22 (1991), 63–94. Gw. hefyd y drafodaeth gan David Callander ar ddau englyn maswedd yng ‘Nghanu Heledd’ yn ‘Dau englyn maswedd o ‘Ganu Heledd’, *Dwned*, 20 (2014), 31–6.

²⁶ Gw. e.e., *CMOC*, cerdd 13.

²⁷ Gall fod tebygrwydd rhwng yr hyn sy’n peri i’r ferch amau dehurwydd Iorwerth fel cnychwr a chynnwys pennill a gofnodwyd oddi ar lafar yng ngogledd Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg: “A oes cont dan dy fontin di verch?” / “Mae agen yn nhacen vy nhin, / Lle hagar i hogyn roi’i bidin / Gall un ieuanc anghynevin / Dyllu’n hawdd i dwll vy nhin.”, gw. Egerton Phillimore, ‘Welsh Aedcæology’, *Kryptadia*, 3 (1886), 151.

36), fel petai i'w gymell a'i annog. Diau mai trosiad am ei chlitoris yw'r crib ceiliog yn y fan hon. Mae ymffrost y ferch yn denu ymateb ymffrostgar gan ei charwr. Dygir i'r meddwl ddarlun o geiliog y gwynt yn sgil y cyfeiriad ffraeth yn y cymal amodol at y gwynt yn troi i'r gorllewin (ll. 39), ond cyfeirio at effaith hyrddio grymus Iorwerth â'i 'hoel fawr'(ll. 38) ar y ferch a wneir. Er mwyn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch ei allu, myn Iorwerth y gall berfformio cystal â neb, a chaiff hynny ei gadarnhau wrth iddo ddisgrifio'r modd y byddai'n ymegnio â'i dair caill wrth ei bodloni.

Yr hyn sy'n nodweddu hiwmor bras y breuddwyd a'r penillion yw aflendid amgylchedd ar y naill law, a gyfleir gan fudreddi baw a thom, ac ar y llaw arall aflendid corfforol, a gyfleir gan y cyfeiriad at garthion dynol ac arogl ddrycsawr taro rhech. Hoffai Iorwerth gysgu mewn gwely rhwng dwy domen dail, ac oddi tano a throsto garthen o rawn wedi'i phygu â'i faw ei hun. Mae'r sôn am fudreddi'r buarth yn dwyn i gof y disgrifiad o dŷ Heilyn Goch yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy' lle'r oedd trwch o 'vissweil gwarthec a'e trwnc' ar y llawr,²⁸ ond bod y disgrifiad ym 'Mreuddwyd Iorwerth Deircaill' yn fwy bwriadus aflan a thröedig. Sonnir wedyn am ddrewdod arogl anadl yn ogystal â drewdod rhech, cyn dod at yr ymddiddan aflednais ei gynnwys. Bwriadwyd y cyfan fel parodi afradlon ar rai o ddisgrifiadau cyfarwydd y chwedlau rhyddiaith. Tanlinellir natur barodiol yr araith hon hefyd gan yr elfen fydryddol ar y diwedd, sy'n hwy na'r hyn a geir fel rheol mewn araith bro. Dau neu dri o englynion ar y mwyaf a geir wrth gloi araith fel arfer, ond yn y fan hon defnyddir y penillion i gynnal ymddiddan estynedig tra masweddu rhwng dau gymeriad.

Rhaid cofio am amgylchiadau datgan y cywydd gan Wiliam Cynwal a Huw Llŷn lle cyfeirir at hoffter Siôn Phylip o adrodd 'Breuddwyd Iorwerth'. Cywydd cellweirus ydyw sy'n ateb cywydd tebyg ei gywair a gyfansoddwyd yn enw pedwar bardd i ofyn am rodd ar ran noddwr o'r enw Robart Prys o Eglwyseg. Rhoir yr argraff fod Wiliam Llŷn yng nghwmni ei dri disgybl, a Siôn Phylip yn un ohonynt. Dyna awgrym mai cyd-destun y ddau gywydd, y cywydd gofyn gwreiddiol a'r cywydd a ganwyd i'w ateb, oedd rhyw achlysur pan oedd y beirdd yng nghwmni ei gilydd ar aelwyd y noddwr. Diau fod cyfeirio at hoffter tybiedig Siôn Phylip o

²⁸ Melville Richards gol., *Breudwyt Ronabwy* (Caerdydd, 1948), t. 2.

adrodd y breuddwyd yn ffordd o ddychanu'r bardd a thynnu ei goes, a rhydd y cyd-destun hwnnw yn ei dro amcan inni am y math o gyd-destun a roes fod i 'Freuddwyd Ierwerth Deircaill' yn y lle cyntaf.

Testun (I)

Breuddwyd Ierwerth ab Adda ab Đđ
yr hwnn a elwid Ierwerth deirkeill.

Dewisswyd Ierwerth deirkeill ar nos Ynyd. Mein moch myrlllychlyd
a Madog moch y koed: ai ddewis fara fo oedd deisen o flawd rhûg kri
5 heb ynddi na heli na halen gwedi i chrassy rhwng dwy fflagl o haid myg=
=lyd: ai ddewis ddiod ef oedd loywon sukan eisin haidd a chynffon iddi: ai
ddewis wely ef oedd gyfwng dwy domen syrlllyd rhwng dau feudu, a charthen
rawn dano wedi plygu i ffedwarkcwr arno a dewisach oedd gantho i ffygu
hi ai faw i hun nag a baw un arall: fal ir oedd iawn iddo: ag fal ir oedd
10 ef yno yn i dyhungach gyntun fo glowe archfa sawyr teckaf yn y byd
yn dywad am i ben; un ai sawyr mŵg banadl irion yn llosgi: ai sawyr
anadl anadl²⁹ y ferch yr oedd ef yn i charu: ag yno y kododd fo ar i draed
ag i kerddodd ef yn i flaen dan dynnŷ y môl oi lygaid rhyd buarth go
domlyd llawn wtra a baw, ar baw ar hyd yngylfedd y din fal i gallech i
15 ysgwyd ef a gwialen ryddgoll or kwr bigilydd ag yn rhannu /r/ buarth
yn ddau hanner i roedd afon gagalgach o gagalfaw sauson ag yno y
gwele fo i gariad yn dywod tuag atto a fforch o unicorn yn i llaw a
gown o dwtmon llwyd amdani; a thri bottwm yn i gau un dan dwll i
gwydd un arall ar i bogel, ar llall ar warr i chont; a throed ar lan
20 yma a throed ar y lan draw ir afon: ag am bob kam a gerdde knap
or baw a syrthie: ag yno dowad ef wrthi hi

Duw /n/ rhwydd riain fain fowki
i mae d'anadl di yn drewi
pa beth a nae fab a thydi

25 Ierwerth grach i ddau benelin
arnad ti mae sawyr kenin
blaen dy dafod yn fy nhîn.

Tydi addfain riain ronka
yn dy din blaen fynghwpa
30 tydi am gwaradwyddaist i yma

²⁹ Ailadroddir 'anadl' yn y gwreiddiol. Gwall copïo.

O bydde im tin gorn kanu
nid oedd anos imi gachu
nid ymtorwn i er hynny.

35 Dydi wâs melyn fflichio
ath pen fal kynffon llwynog
Mae gen i gont a chrib keiliog

Mae gen ine gwd ag eirin
A hoel fawr gorywch llaw /r/ fontin
40 o throe /r/ gwynt ir gorllewin
a yrre dy geiliog di /n/ dy din.

Ierwerth deg mab syber ddamwain
d'arfer di eirioed oedd rechfremain
a ddoed di yma atta i [.....]³⁰
ni chaed da heb i ofyn
45 a fedrid di fod gan ddyn

Di gaet geni hynny yn llawen
pe bae kimin dy gont di ag yfydden
Ag yno i gwelychi wâs melyn ysmala /n/ llithio³¹
teirkaill rhyd llethr torkont a chwÿs am y
50 tal, a gwregys am y din. a brynn o gedor a
bram o geudin: ar llifeiriant or din yn llafeiriaw.

Ierwerth deg ddilibyn gaill
rhagorol wyd rhagor eraill
Duw a ddaw iti dy ragogaill
55 tydi wÿr y drwg, a thi wyr y da
a chida di Ierwerth deg ir râ.
Ierwth ab Adda ab Ðđ ai kant.

Ffynhonnell: LIGC 13215E, tt. 86–7. Noder bod tudalen 87–88 wedi'i gamleoli wrth rwympo'r llawysgrif.

³⁰ Gair annealladwy. Nid oedd y copïydd ei hun yn siŵr o'r gair am iddo roi marciau oddi tano.

³¹ Yr hyn a geir yn y testun yw *llithio*, ond efallai mai *llithro* a ddylai fod. Rhoddai hynny, o bosibl, well ystyr ac fe geid cynghanedd draws: 'llithro teirkaill rhyd llethr torkont'. Os *llithio*, yna mae'n bosibl y gall olygu 'gwlychu'.

Geirfa

addfain: tenau.

archfa: drewdod.

bontin: pen-ôl.

bowki: bawci, ci budr, dihiryn.

bram: rhech.

cagalfaw: *cagl* + *baw*, llaid wedi caledu.

calgach: *cagl* + *cach*, carthion wedi caledu.

cnap: darn, tamaid.

crib ceiliog: trosiad am y clitoris.

cyfwng: bwllch, gwagle; rhwng dau beth neu le.

cylfedd: > *culfedd*, *cul* + *bedd* yn ffigurol, rhych.

cynffon: adflas, blas cryf annymunol.

cyntun: cwsg byr, nepyn.

dilibyn: rhagddodiad negyddol *di-* + yr ansoddair *llibin* (llipa a difywyd); cryf a gwydn.

dyhungach: *dyhun* > *dyun* + *cach*, dymunol a chachlyd.

airin: ceilliau, gw. *GPC*, d.g. *airin* (b), t. 1197.

eisin: plisg grawn *ÿd*.

fynghwpa: darllener *fy nghlwpa*, pastwn neu ffon; yn ffigurol y'i defnyddir yma am gal neu bidyn.

ffagl: tanwydd.

fflchiog: naill ai (a) gwichlyd, neu (b) darllener *ffluwch[i]og*, gwallt cudynnog, trwchus.

ffygu: gw. *pygu*.

gloywon: dŵr neu hylif a olchir oddi ar waddod.

gwydd: ai *gwydd*, sef coedwig neu fforest, yn ffigurol am y gedor?

hoel: yn ffigurol am gal neu bidyn. Cymh. y trosiad o'r gal fel 'hoelbren Mihangel' yn y rhestr o'r 'Tri henw ar ddeg sydd ar gal', gw. Morfydd E. Owen, 'Manion ?meddygol. II. y gal', *Dwned*, 7 (2001), 62–3.

llafeiriaw: > *llifeiriaw*, llifeirio; dylifo, ffrydio.

llithio: bwydo, yn enwedig â sylwedd hylifol, rhoi gwlych. Nid yw'n amhosibl mai annog neu swcro a olygir yma, gw. *GPC*, d.g. *llithiaf*², t. 2189, ond gw. troednodyn 31 uchod.

llwtra: llaid, mwd.

môl: crawn sy'n cronni yn y llygad wrth gysgu.

myrllychlyd: *mwrllwch* + terfyniad ansoddeiriol *-lyd*, yn llawn mygdarth.

nos Ynyd: tair noson cyn y Grawys; dydd Mawrth Ynyd.

pygu: gorchuddio â phyg; gwneud yn ddwrglos.

rhagorgaill: caill ragorol, arbennig.

rhonca: budr, drewllyd. Mae'n werth nodi y gall *rhonca* hefyd gael ei ddefnyddio am hwch yn gofyn baedd, gw. *GPC*, tt. 3094–5.

rhechfremain: *rhech* + *bremain*, torri gwynt, rhechu.

rhyddgoll: *rhydd* + *collen*, gwialen o gollen rydd.

sauson: > Saeson.

sawyr: sawr, aroglau.

sukan: > *sucan*, llymru; blawd a dŵr.

syrlllyd: > *surllyd*, yn sur, asidig.

torkont: ymchwydd neu fol y gont.

twtmon: Ai yr ansodair *twt* + yr ôl-ddodiad enwol *-mon*, fel nodwedd; taclus? Cymh. *blermon*, *GPC*, t. 285. Ond mae ‘gown o dwtmon llwyd’ yn awgrymu mai at ddefnydd y gown y cyfeirir. Fe geid yn Saesneg yr hyn a elwid yn ‘Taunton cloth’, sef defnydd gwlanog a wneid yn Taunton yng Ngwlad yr Haf, a chofnodwyd enghraifft ohono yn 1607, gw. <<https://www.oed.com/view/Entry/198155>> (cyrchwyd Tachwedd 2019). (Diolchaf i’r Athro Marged Haycock am dynnu fy sylw at y cyfeiriad.) Anodd gweld sut y gallasai’r Cymreigiad Twnton / Townton droi yn ‘twtmon’, oni bai fod rhyw gawlio wedi bod.

wtra: gw. *llwtra*.

fyfdden: > *efydd*, crochan pres neu badell efydd.

nygylfedd: gw. *cylfedd*.

ymtorwn: naill ai (a) 1af unigol Amherffaith *dorbod*, hidio, malio, neu (b) 1af unigol Amherffaith *torri*, rhwygo; colli nerth.

Testun (II). Darn anghyflawn yn unig.

llyma frevddwyd Ierwerth tair kaill a vv yn dioddef
digaethav o gariad myddyfawr o nos awst hyd nos nnyd,
nynd oedd i ddewis nos, ai ddewis fwyd, ai ddewis ansodd ydoedd, n[*id*]
[a]mgen bara haidd geirch mall, a mehyn merllydawg a rhe[]
5 []jedfoch, a gwaddodlyn godowyll i ddwyn blas ar i enav, a bwt[]
[]dlyd kacheidfaw gwialbwdwr, a chronglwyd farv ddefnyn[]
[v]wch i benn, ac yno i gwnaeth vo i wely rhwng y pedair kavdy []
i gallai gael vn o honyn, o ba le bynnac y bai y gwynt i dd[]
[a]roglev yw ffoenev, ac yna i kymertth garthen ac ir aeth yw
10 [] i hvn ai phygv ai vaw ehvn o achos gwell oedd gantho sa[]
[va]w i hvn no baw arall, a charthen bygeidvaw dano, ac v[]
[]r domlyd arno, a chwain yn ymdynv a charnvlew i din: ac []
[]w gyntaf a ddoeth ar i lygaid ef ai gwelai ehvn yn []
[]v ac yn taro amdano bais fraith votymoc a gwregis lydan
15 [] a fflowtyner o groen brith breloc, a chylllell evydd swch vdyr fras
[ar ei] glvn, a dyrnod ar grimp i drwyn: a dyrnod ar gefyn pob bi[]
[] , ar feleth ar bob sowdwl, ag yn agori y drws diertth ir ty lle
[gw]elai faw iar ar i ewin wyl levan yn yr haf oni cheissiai []
dafod, ag yna y klowai fygvdfarth o []

20 [] tvag atto val na wyddia[]
[]yl oer []

Ffynhonnell: Peniarth 254D, iii, t. 57.

Nodyn: Fy awgrymiadau i yw'r hyn sydd mewn print italig rhwng y bachau petryal lle y mae'r llawysgrif wedi'i darnio. Llawysgrif o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, c.1609, yn perthyn i John Jones, Gellilyfdy, yw hon, ac mae'r testun darniog hwn o'r 'Breuddwyd' yn ei law anffurfiol gynnar ef, gw. Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800* (i ymddangos); *RWM*, I. iii, tt. 1071–2. Ar d. 59 y llawysgrif ceir yr hyn sy'n ymddangos fel petai'n rhan o bennill neu benillion a all fod yn cynnwys ymddiddan rhwng dau. Fe all fod yn perthyn i ddarn anghyflawn o araith arall a geir ar d. 58, sef 'araith ddyr a hynudd' (araith Tudur a Hunydd), ond oherwydd y geiriau 'chwant ar vyingheill[]' (ll. 6) a '[]tin vyinghontvun y bu []' (ll. 9), mae'n bosibl fod y llinellau hyn yn perthyn yn wreiddiol i'r dryll o 'frevddwyd Ierwerth' ar d. 57. Efallai fod y testun anghyflawn hwn o'r 'Breuddwyd' yn cynnwys sgwrs rhwng Iorwerth a'i gariadferch ar yr un thema â honno a geir yn y testun mwy cyflawn yn llawysgrif LIGC 13215E, neu fod y testun anghyflawn o araith Tudur a Hunydd hefyd yn cynnwys ymddiddan go fras:

[]af er ioed ar a vv rhyngthynt hwy ef yn mynd yw []
[] eb law i gwely hithe
[]dd dw a vendiko dy waith
[] yw chwaith dy gvsane
5 [] wyd mewn oedran i gael []
[]ae dy chwant ar vyingheill[]
[]vr kroesso dw wrthyd
[] y bych ynvvd a gwin []
[]tin vyghontvun y bv []
10 []e ar i mant / dy chw[].

BLEDDYN OWEN HUWS
Aberystwyth